Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Penybont

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

12. Newid hinsawdd

12.12 Gweithredu ar lefel gymunedol leol ar newid

Y newid yn yr hinsawdd yw un o'r nifer o heriau a wynebir gan grwpiau cymunedol yng Nghymru a thrwy fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd gallwn hefyd ymdrin ag amrywiaeth o faterion eraill sy'n effeithio arnom ni a'n cymunedau. Mae cymunedau a mudiadau cymunedol yn chwarae rôl hanfodol wrth ymgysylltu â phobl ar lawr gwlad ac yn aml maent yn chwarae rôl flaenllaw wrth ddatblygu gweithredu ac ymwybyddiaeth ar lawr gwlad. Mae'r daflen wybodaeth hon yn cyfeirio at rai ffynonellau o wybodaeth ac ysbrydoliaeth i gychwyn ar bethau.

Ysbrydoliaeth

Mae nifer o grwpiau sy'n gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yng Nghymru yn profi i fod yn ysbrydoliaeth i'w cymunedau, grwpiau cymunedol eraill ac maent yn helpu i lywio a dylanwadu ar bolisïau'r Llywodraeth. Er enghraifft edrychwch ar beth mae pedwar enillydd yr her Cymunedau Carbon Isel wedi'i gyflawni: http://tinyurl.com/Low-Carbon-Community-Challenge

Mae Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf hefyd yn ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a gwella eu hamgylchedd e.e. prosiect Tref Werdd ym Mlaenau Ffestiniog : http://tinyurl.com/Blaenau-Ffestiniog a'r Cynllun Trydan Dŵr yng Nghwm Clydach : www.energyshare.com/cwmclydach-community-development-trust/

Mae Mentrau Pontio wedi dod yn ymateb cymunedol poblogaidd i bwysau'r newid yn yr hinsawdd, cyflenwadau ynni rhad yn crebachu a'r dirwasgiad economaidd mewn pentrefi, trefi a dinasoedd yng Nghymru. www.transitionnetwork.org

Bob blwyddyn mae Cynnal Cymru, rhwydwaith Cymru ar gyfer mudiadau sy'n gweithio ar y newid yn yr hinsawdd a datblygiad cynaliadwy, yn cynhyrchu Rhestr Werdd Cymru, gan dynnu sylw at y gwahanol bobl sy'n gweithredu yng Nghymru. www.cynnalcymru.com/project/wales-green-list

Gwybodaeth a Chanllawiau

Cafodd y pecynnau **Eco-Ganllawiau Gweithredu** Cymunedol eu datblygu gan bartneriaeth o fudiadau amgylcheddol a rhai cysylltiedig gyda mewnbwn gan Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ac awdurdodau lleol. Maent wedi cael eu cynhyrchu i gwmpasu pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r pecynnau'n darparu amrywiaeth o wybodaeth am yr hyn sy'n bosibl, pwy all eich helpu ac enghreifftiau o beth mae cymunedau neu grwpiau eraill wedi'i wneud. Er enghraifft datblygu prosiect coetir cymunedol neu brosiect pysgota, sut i baratoi os ydych mewn perygl o gael llifogydd neu ofalu am fywyd gwyllt lleol. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth ar sut i gychwyn arni a rôl system cynllunio defnydd tir.

Am gopi cysylltwch a Ddesg Gymroth WCVA, help@wcva.org.uk

Mae **Llywodraeth Cymru** yn rhoi gwybodaeth a chanllawiau ar gymunedau yn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd a gellir eu gweld ar y wefan www.walescarbonfootprint.gov.uk/?skip=1&lang=cy Mae hwn yn cynnwys enghreifftiau o beth mae adeiladau cymunedol a thafarndai wedi'i wneud i leihau eu hôl-troed carbon a phecyn gweithredu Cymunedol.

www.walescarbonfootprint.gov.uk/community/actionpack/?skip=1&lang=cy

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn hwyluso Rhwydwaith Gweithgaredd Cymunedol ar Newid Hinsawdd sy'n darparu cymunedau ac ymarferwyr meithrin gallu ac sydd wedi sefydlu'r rhaglen ymchwil gweithredu Braenaru i gefnogi gweithredu cymunedol ar y newid yn yr hinsawdd.

www.swea.co.uk/proj_pathfinder.shtml

Adnodd ar y we yw *Community Pathways* sy'n cynnwys dulliau cymunedol i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd – yn seiliedig ar enghreifftiau gwaith go iawn ledled y DU. Gyda gwybodaeth annibynnol a chanllawiau ar bron 40 o wahanol ddulliau cymunedol i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd – o gynnal ymgyrchoedd addewidion i sefydlu cynlluniau swmp-brynu i ddatblygu prosiectau deunydd adnewyddadwy cymunedol – gall Community Pathways ddangos pa adnoddau a phrofiad sydd eu hangen a beth mae pobl eraill wedi'i ddarganfod wrth ddefnyddio dulliau ei gilydd. Gallwch hefyd weld dolenni at ystod eang o enghreifftiau cymunedol ar waith ac adnoddau pellach i gefnogi dewisiadau a chynllunio. Ar hyn o bryd mae'r safle yn pwysleisio ar faterion ynni ond mae'n cyffwrdd â materion eraill fel bwyd a thrafnidiaeth.

www.communitypathways.org.uk

Cyfres o adnoddau yw PlanLoCaL yn cynnwys ffilmiau, pecyn adnoddau a'r wefan hon sydd â'r nod o gefnogi cymunedau a grwpiau sy'n 'cynllunio ar gyfer byw mewn modd carbon isel'.

www.planlocal.org.uk

Ffocws: Trafnidiaeth ac Ynni yn y Gymuned

Ceir nifer o asiantaethau neu fudiadau ynni yng Nghymru sy'n darparu ystod o wasanaethau ar naill ai/neu effeithlonrwydd ynni domestig a chymunedol a chynhyrchiant ynni:

- Asiantaeth Ynni Hafren Gwy

- Canolfan Eco Cymru
- Asiantaeth Ynni De-ddwyrain Cymru
- Eco Dyfi http://www.ecodyfi.org.uk/
- Awel Aman Tawe
- Y Cymoedd Gwyrdd
- Gwasanaeth Ynni'r Cartref

Mae nifer o'r mudiadau hyn yn darparu cefnogaeth ar gyfer cynlluniau ynni cymunedol ar raddfa fwy drwy raglen Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru. Mae'r mudiadau hyn hefyd wedi bod yn allweddol wrth ddod ynghyd i sefydlu Ynni Cymunedol Cymru. Mae'r Asiantaeth Ynni Genedlaethol yn gweithio ar faterion Tlodi Tanwydd mewn partneriaeth â chymdeithasau tai ac Awdurdodau Lleol. Os ydych yn ystyried beth yw'r ffordd orau i fynd i'r afael â Thlodi Tanwydd yn eich cymuned leol, gall adran dai eich Awdurdod Lleol neu asiantaeth ynni fod yn lleoedd da i gychwyn arni.

Edrychwch ar www.sustrans.org.uk i gael syniadau ar wneud dewisiadau teithio doethach yn eich cymuned a phrosiectau sy'n dangos sut i weithredu.

Nod y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol yw llywio rhwydwaith trafnidiaeth wirfoddol a chymunedol. Ewch i'r safle i gael taflenni gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor - http://www.ctauk.org/in-your-area/wales.aspx

Mae llawer o waith wedi'i wneud yn ddiweddar i archwilio sut all cymunedau feithrin ymddygiad cynaliadwy. I gael rhagor o wybodaeth ar newid ymddygiad cynaliadwy mewn cymunedau ewch i wefan Cynnal Cymru

www.sustainwales.com/behaviour-change-resources

Ac Amgylchedd Cymru – http://www.environment-wales.org/grants/supporting_sustainable_living/browse_behaviour_change_resources/787

Cefnogaeth a Chanllawiau pellach

Cylch - gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i fudiadau newydd a phresennol sy'n ymwneud ag ailddefnyddio, ailgylchu, compostio ac ailbrosesu ledled Cymru- www.cylch.org

Groundwork Cymru - helpu pobl a mudiadau i wneud newidiadau er mwyn creu cymdogaethau gwell, meithrin sgiliau a gwella rhagolygon swyddi, a byw a gweithio mewn ffordd wyrddach- www.groundworkinwales.org.uk

BTCV Cymru – helpu i greu dyfodol mwy cynaliadwy drwy ysbrydoli pobl a gwella lleoedd - www2.btcv.org.uk/display/home

Cadwch Gymru'n Daclus - ystyried y gellir sicrhau "Cymru lân a thaclus" yn bennaf drwy newid agweddau pobl fel eu bod yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael effaith negyddol ar eu hamgylcheddau lleol - www.keepwalestidy.co.uk

CGS –cysylltwch â'r CGS lleol i gael gwybod os gallant gynnig help, er enghraifft help i leihau costau rhedeg eich mudiad neu sefydlu prosiect creu ynni cymunedol. Os nad ydynt yn gallu darparu cymorth uniongyrchol fel arfer byddant yn gwybod am rywun all wneud hynny.

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Penybont
112-113 Heol y Fasnach , Maesteg , Pen-y-Bont ar Ogwr, CF34 9DL
Elusen Gofrestredig *1062850*

Ffôn: 01656 810400 bavo@bavo.org.uk
Ffacs: 01656 812151 www.bavo.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:12/02/2013

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk